NICE National Institute for Health and Care Excellence

# Strôc a thrawiad isgemig darfodedig mewn pobl dros 16 oed: diagnosis a rheolaeth gychwynnol

1 Mai 2019

## *Strôc: y gofal y dylech ei ddisgwyl*

Mae strôc yn digwydd pan gaiff y cyflenwad gwaed i ran i'r ymennydd ei dorri, neu pan fydd gwaedu yn yr ymennydd neu o'i amgylch. Mae mwy na 100,000 o bobl yn cael strociau yn y DU bob blwyddyn. Mae dros 1.2 miliwn o bobl yn y DU yn byw gydag effeithiau strôc, sy'n golygu mai hwn yw achos unigol mwyaf anabledd. Er mwyn sicrhau bod unigolyn yn cael y siawns orau o wella, mae'n rhaid adnabod strôc a'i thrin yn gyflym. Os bydd y symptomau yn diflannu o fewn ychydig oriau, fe'i gelwir yn drawiad isgemig darfodedig neu'n TIA (fe'i gelwir hefyd yn 'strôc fach') – gall hwn fod yn arwydd rhybuddio y bydd strôc yn digwydd yn y dyfodol

Rydym am sicrhau y bydd y canllaw hwn yn gwneud gwahaniaeth i bobl sydd wedi cael strôc neu TIA drwy sicrhau'r canlynol:

- caiff eu symptomau eu hadnabod yn gyflym a bydd arbenigwr yn eu gweld o fewn 24 awr
- cynigir y sganiau a'r profion cywir iddynt er mwyn cael diagnosis cyflym
- cynigir aspirin ar unwaith ar ôl TIA er mwyn helpu i atal strôc
- cynigir y driniaeth gywir yn gyflym yn dibynnu ar y math o strôc.

## *Gwneud penderfyniadau gyda'ch gilydd*

Caiff y penderfyniadau gorau ynglŷn â thriniaeth a gofal eu gwneud ar y cyd. Dylai eich tîm gofal roi gwybodaeth glir i chi, trafod eich opsiynau â chi a gwrando'n ofalus ar eich barn a'ch pryderon. Dylent hefyd wneud y canlynol:

- esbonio mewn ffordd agored a sensitif beth yw strôc neu TIA
- gwneud yn siŵr eich bod yn deall beth sy'n digwydd o ran eich triniaeth a'ch gofal, a'ch helpu i ddweud beth sydd ei eisiau arnoch



© NICE 2019. All rights reserved. Subject to Notice of rights.

- rhoi rhagor o wybodaeth i chi pryd bynnag y bydd ei hangen arnoch.

Os na allwch ddeall y wybodaeth a roddir i chi, dywedwch hynny wrth eich gweithiwr gofal iechyd proffesiynol.

Darllenwch ragor am wneud penderfyniadau am eich gofal.

## *Eich helpu i benderfynu ynglŷn â thriniaeth*

**Hemicraniectomi datgywasgol ar gyfer strôc ddifrifol**

Mae hemicraniectomi datgywasgol yn fath o lawdriniaeth a ddefnyddir weithiau pan fydd ymennydd unigolyn wedi chwyddo ar ôl cael strôc ddifrifol. Mae'r llawdriniaeth yn cynnwys tynnu rhan o'r benglog er mwyn lleihau'r pwysedd a achosir gan y chwyddo. Mae manteision ac anfanteision i'r math hwn o lawdriniaeth. Mae pobl yn fwy tebygol o oroesi ar ôl eu strôc ond mae mwy o risg y bydd ganddynt anabledd difrifol. Rydym wedi llunio'r canllaw penderfyniadau cleifion hwn er mwyn helpu timau strôc i drafod hemicraniectomi datgywasgol â phobl sydd wedi cael strôc a'u teuluoedd a'u gofalwyr, fel y gallant benderfynu p'un ai hwn yw'r dewis cywir.

## *Ble y gallaf gael rhagor o wybodaeth?*

Mae gwefan y GIG yn cynnwys mwy o wybodaeth am strôc.

Gall y sefydliadau isod roi rhagor o gyngor a chefnogaeth i chi.

- Cymdeithas Strôc, 0303 3033 100
- Cymdeithas y Frest, y Galon a Strôc Gogledd Iwerddon, 028 9032 0184
- Different Strokes, 0845 130 7172

Nid yw NICE yn gyfrifol am gynnwys y gwefannau hyn.

I rannu profiad o ofal rydych wedi'i gael, cysylltwch â'ch grŵp Gwarchod Iechyd lleol.

Lluniwyd y canllaw hwn ar y cyd â phobl y mae strôc wedi effeithio arnynt a staff sy'n eu trin a'u cefnogi. Mae'r holl benderfyniadau yn seiliedig ar yr ymchwil orau sydd ar gael.

ISBN: 978-1-4731-3387-7



© NICE 2019. All rights reserved. Subject to Notice of rights.